

Cofion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Gwenfyl Williams (Llanefydd) nos Sadwrn diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i phlant – Nia, Dewi ac Alwyn a'u teuluoedd, ac â'i brawd a'i chwaer Maldwyn Davies (Llansannan) a Megan Thomas (Cefn Berain) a gweddill y teulu niferus hwn, gan weddio y bydd Duw yn dda wrth bob un ohonynt yn eu galar a'u hiraeth am un mor annwyl. Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Mrs Elizabeth O. Jones (Llansannan) fu farw dydd Sul diwethaf, a chyflwynwn y plant – Delyth, Iola, Wynford, Phyllis, Edgar ac Enid a'u teuluoedd hwythau, ynghyd â'i chwaer Margaret Jones (Llansannan) a gweddill y teulu i ofal a thangnefedd yr Arglwydd. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.
- Anfonwn ein cofion hefyd at y cleifion yn ein plith. Mae Elwyn Roberts (Llansannan) yn cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd; fel ag y mae Gwenfyl Williams (Llansannan) yn Ysbyty Rhuthun; ac Elsie May Edwards (Llansannan) a Morfudd Williams (Henllan) yn yr Infirmari. Mae'n dda cael adrodd fod Eifion Howatson (Llanefydd) a Heddwyn Davies (Llansannan) wedi cael dod adref o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.

Derbyn yn Aelodau

Mae'r sesiynau ar fin dechrau ar gyfer gweddill yr ieuencid 15+ sydd wedi dangos diddordeb i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n awyddus, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol wedi hynny. Os oes unrhyw un arall â diddordeb, cysylltwch â Rhodri, Gwion neu Mair **erbyn dydd Sul, Hydref 2il**, os gwelwch yn dda. BYDD Y CYFARFOD CYNTAF AR HYDREF 6ED.

Detholiadau

Os hoffech gael copi o Raglen Cymanfaoedd Canu 2016-2017 (Hen Nodiant a/neu Sol-ffa), rhwch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul **HEDDIW (MEDI 25^{ain})** os gwelwch yn dda. Pris: £1.40. (Arolygwyr: *Wnewch chi roi eich archeb i Mair erbyn dydd Llun, os gwelwch yn dda?*)

I ddod

- OEDFA DIOLCHGARWCH UNDEBOL LLANSANNAN** yng Nghapel Coffa Henry Rees nos Lun, Hydref 3ydd am 7.30 gyda'r Parch. Hywel Edwards yn pregethu.
- OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL SARON** nos Iau, Hydref 6ed am 7.00 gyda'r Parch. Dafydd Rees Roberts yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 25^{ain} Medi 2016

Darlleniad y Dydd

Luc 18: 35-43

(BCND tud.89 / BCN tud.81)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i'r oedfaon ar draws y Fro heddiw. Gweddïwn y byddwn heddiw yn mynd i mewn i berthynas ddyfnach gyda Duw o achos yr hyn wnaeth Iesu Grist ar y groes drosom ni. Rydym hefyd yn eich gwahodd i weddio dros weithgareddau a chlybiau'r Fro wrth i ni barhau drwy'r tymor.

Mae'n rhyfeddol y pethau sy'n dod i'r meddwl wrth i ni gymryd munud i sylwi ar wahanol sefyllfaoedd. Wrth edrych ar y newyddion, mae'n hawdd iawn dechrau mynd yn 'paranoid' a dechre bod ag ofn mynd allan o'r tŷ. Er enghraifft, roedd yn y newyddion yr wythnos ddiwethaf fod rhyw orsaf ymchwil gafodd ei danfon i'r gofod gan China 'allan o reolaeth' ac yn mynd i ddod nôl i'r Ddaear – ar gyflymder uchel! Y rhan frawychus am y digwyddiad yma ydy nad oes modd rhagweld ble ar y Ddaear fydd yr orsaf yn glanio. Felly, dyma fi'n dechrau poeni fod yna ganolfan wyddonol o'r gofod yn mynd i lanio yng ngardd flaen Preswylfa! (Dydy o ddim i fod i lanio tan ddiwedd y flwyddyn nesaf, felly peidiwch â phoeni!)

Y rheswm dwi'n dweud hyn ydy fod gwybodaeth yn bwysig. Mae'n bwysig weithiau i ni wybod pethau. Yn wahanol i bore ddoe cyn i mi ddarllen am yr orsaf ofod, dwi rwan yn gwybod fod y peth yma yn yr awyr rhywle yn syrthio tua'r llawr. Wrth edrych ar ddarlleniad y dydd heddiw o Luc 18, mae'r un peth yn fy nharo i. Roedd y dyn yn gardotyn dall oedd yn amlwg wedi clywed rywbyrd am Iesu Grist. Pan mae'r dyrfa'n dod, mae'n dechrau gweiddi ar Iesu Fab Dafydd i'w helpu! Pan mae pobl yn trio ei dewi, mae'n gweiddi'n uwch fyth! Mae'r dyn wedi clywed am Iesu ond mae hefyd yn gwybod pwy ydy o go iawn – Mab Dafydd, un o linach brenhinoedd Israel, Y Meseia! Mae beth sy'n digwydd nesaf yn ddarlun hyfryd o'n perthynas ni gyda Duw. Mae Iesu yn gofyn sut allai helpu'r dyn ac mae'r dyn yn gofyn am ei olwg yn ôl! Mae o mor syml. Mor glir. Pa mor aml ydan ni'n gorgymhlethu ein gweddïau? Pa mor aml ydan ni'n osgoi gweddio drosta ni'n hunain oherwydd ffals-ostyngeddwydd?

Fedrwch chi na fi wneud unrhyw beth i osgoi i'n coeden afalau gael ei dinistrio gan orsaf ofod, ond mi fedrwn ni wneud rhywbeth am ein hiechyd ysbrydol a chorfforol – galw ar enw Iesu Grist, ei gyhoeddi yn Arglwydd a gofyn am iachâd. Dim ond ganddo fo mae'r iachâd yma'n gallu dod, a dim ond y Fo sy'n gallu ei gynnig.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

Darlleniad Wythnos Nesaf

Jeremeia 23: 5-8 (BCND tud.708 / BCN tud.646)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 25^{ain} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 27^{ain} • **Cyfarfod Blaenoriaid a Diaconiaid Bro Aled** yn Llansannan am 7.30.
- Mercher – 28^{ain} • **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7.30 yng nghwmni'r Parch. Helen Wyn Jones.
- **Torri Syched Dynion** (*seiat*) am 7.30. Lleoliad i'w gadarnhau. Edrychwch ar flaen y wefan neu holwch Mair.
- Iau – 29^{ain} • **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yng Nghapel Llanefydd am 7.30.
- **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod am 7.00 yng Nghapel Ebeneser, Graigfechan. Bydd Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Mr D. Glyn Williams, Llandudno yno'n annerch. Yn dilyn hynny trafodir y materion sy'n ymwneud â'r Cwrdd Chwarter.
- **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Heulfryn, Llansannan am 7.30.
- Gwener – 30^{ain} • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan am 7.30.
- Sadwrn – 1^{af} • **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn y Bala. (Paned am 10.00, y darlithoedd o 10.30 – 4.00.)
- Sul nesaf – 2^{il} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd Rhodri yn pregethu.

Henllan a Groes

- Sul yma – 25^{ain} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd Mrs Sarah Dafydd yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Bwriedir ail-gychwyn yr Ysgol Sul i'r plant yn Groes y Sul yma – croeso i fwy o blant i ymuno. Cynhelir **Ysgol Sul i'r plant** a'r oedolion yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 2^{il} Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 25^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 2^{il} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 25^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog **am 10.00** (SYLWCH AR YR AMSER). Byddwn yn mynd ymlaen wedyn i Eglwys Sinan am 11.00 i Wasanaeth Diolchgarwch a chinio ysgafn i ddilyn. Yn ystod y gwasanaeth, bydd Huw Tan y Craig yn rhannu ei brofiad fel amaethwr. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 2^{il} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 25^{ain} Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Sul nesaf – 2^{il} Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 25^{ain} Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 2^{il} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Manylion Cyswilt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.